

Coronavirus (COVID-19)

Diweddariad ynghylch Cydymffurfiaeth

Rheoli **Risg Legionella** mewn
Adeiladau



EICH HELPU CHI I GADW'N DDIOGEL

Cyngor **Sir Gâr**
Carmarthenshire
County Council



Neges Ymgynghorol - DIWEDDARIAD Legionella

Yn dilyn ein neges ymgynghorol a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2020 mewn perthynas â 'Rheoli Risg Legionella mewn Adeiladau', diben y neges hon yw rhoi datganiad sefyllfa wedi'i ddiweddarau. Ar ôl cael cadarnhad yr wythnos diwethaf y bydd y cyfyngiadau symud yn parhau ac wrth aros am ragor o gyfarwyddyd ynghylch yr hyn sy'n mynd i ddigwydd nesaf, bydd angen i ni ystyried rhoi cynlluniau ar waith pan fydd y cyfyngiadau symud yn cael eu llacio'n swyddogol a gallwn ailagor/defnyddio'r adeiladau unwaith eto.

Mae'r brif broblem o ran Rheoli Legionella yn ymwneud ag adeiladau sydd wedi'u cau'n rhannol, yn enwedig ysgolion, ac adeiladau eraill sy'n gweithredu mewn capasiti llai ac felly mae angen inni sicrhau bod gweithdrefnau cadarn ar waith i fynd i'r afael â'r risg hon.

O ran yr holl eiddo, mae canllawiau Legionella yn gwahanu adeiladau yn dri chategori:

1. y rheiny sydd ar agor ac sy'n cael eu defnyddio'n llawn,
 2. y rheiny sydd wedi'u defnyddio'n rhannol
 3. y rheiny sydd heb eu defnyddio ac sydd wedi bod ar gau am fwy na mis.
1. O ran adeiladau sydd wedi'u hagor yn llawn ac sy'n gweithredu yn ôl yr arfer, mae'n rhaid i'r Person sy'n Gyfrifol am y Safle barhau i ymgymryd â'i weithgareddau/trefniadau arferol mewn perthynas ag archwiliadau eiddo.
2. Yn yr adeiladau hynny y gwneir rhywfaint neu ychydig iawn o ddefnydd ohonynt, argymhellir cynnal trefniadau rheoli arferol (tymereddau) yn ogystal â pharhau i fflysisio'n wythnosol yr **holl arllwysfeydd** a chofnodi (gweler atodiad a) y drefn hon fel y nodwyd yn y neges ymgynghorol flaenorol (gweler Atodiad b). Gellir ailagor yr adeiladau hyn i'w defnyddio'n llawn pan fydd y cyfyngiadau symud yn dod i ben cyhyd â'ch bod yn gallu darparu'r dystiolaeth bod y trefniadau fflysisio wedi cael eu cynnal mewn perthynas â'r holl arllwysfeydd poeth ac oer a bod mynediad wedi'i roi i 'HSL Compliance', ein Contractwr Rheoli Dŵr, i gynnal ei ymweliadau monitro misol arferol.
- Sylwch, fodd bynnag, os oes gennych systemau risg eraill (megis pyllau sba, pyllau nofio ac ati), yna mae angen rhagor o waith adfer er enghraifft mae angen diheintio ac ail-gomisiynu cyn ailagor y systemau arbenigol hyn.
3. Mewn adeiladau sydd heb eu defnyddio ac sydd wedi bod ar gau am fwy na mis a lle **nad** yw'r gwaith fflysisio wythnosol wedi cael ei gwblhau, mae'r risg y bydd bacteria Legionella yn cynyddu yn uchel. Mae'n rhaid i'r adeiladau hyn aros **ar gau hyd nes y cymerir camau adfer**. Mae'r canllawiau yn argymhell y dylid diheintio'n gemegol y systemau dŵr poeth ac oer a chasglu samplau bacteria a legionella. **Dim ond** pan fydd yr uned Cydymffurfiaeth Eiddo yn fodlon bod y systemau dŵr poeth ac oer o fewn y terfynau a reolir y gellir ailagor yr adeiladau hyn. Gan fod angen deori'r samplau hyn am hyd at 10 diwrnod yn y labordy, byddai angen i'r gwaith diheintio gael ei wneud o leiaf bythefnos cyn unrhyw ddyddiad ailagor, gan sicrhau bod arllwysfeydd yn cael eu fflysisio'n rheolaidd rhwng y cyfnod diheintio ac ailagor.

Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y bydd galw sylweddol am lanhau a diheintio systemau dŵr pan fydd y cyfyngiadau symud yn cael eu llacio. Byddai angen felly ystyried glanhau a diheintio system dŵr eich safle cyn gynted â phosibl ond, bydd yn hanfodol bod y drefn fflysisio yn cael ei hail-gyflwyno a pharhau i wneud hyn i leihau'r merddwr hyd nes bod agor yr adeilad yn opsiwn o bosibl.

Pa bynnag gategori y mae eich adeilad yn perthyn iddo, mae'n RHAID i chi gwblhau'r 'Holiadur Cydymffurfiaeth Eiddo' a anfonwyd atoch drwy e-bost gan UnedCydymffurfiaethEiddo@sirgar.gov.uk

Mewn perthynas ag ysgolion, anfonwyd e-bost atoch gan Bennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant. Mae'r RHAID i bob ysgol glicio ar y ddolen drwy HWB, llenwi'r holiadur a'i ddychwelyd cyn gynted ag y bo modd. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei dychwelyd i'r Uwch-ymgyngorydd Addysg i'w chasglu a'i rhannu gyda'r Uned Cydymffurfiaeth Eiddo er mwyn cymryd camau dilynol.

Os nad ydych wedi derbyn y ddogfen hon, mae angen i chi ofyn amdani drwy'r cyfeiriad e-bost hwn. Llenwch y ffurflen a'i dychwelyd. Ar ôl i'r Uned Cydymffurfiaeth Eiddo dderbyn y ffurflen wedi'i llenwi, bydd yn cysylltu â chi i roi cyngor ar y camau nesaf o ran Risgiau Eiddo.

Diolch yn fawr

Jason Jones
Rheolwr Cynnal a Chadw Eiddo

Atodiad A

[illegible]

Rheoli Risg Legionella mewn Adeiladau (sydd ar agor neu ar gau) yn ystod y cyfnod COVID-19

"Yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth ac o dan ofynion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, bernir bod y gwasanaethau a ddarperir gan 'HSL Compliance' mewn perthynas â Hyllendid Dŵr yn wasanaethau critigol o ran sicrhau bod eich safle yn gweithredu'n ddiogel a phwysigrwydd cynnal trefniadau fflysio pob arllwysfa a ddefnyddir yn anaml."

Mae llawer o eiddo ar gau neu'n cael eu defnyddio'n rhannol dros y cyfnod COVID-19 ac o ganlyniad nid yw'r mwyafrif helaeth o'r arllwysfeydd dŵr poeth ac oer yn cael eu defnyddio mwyach.

Os gadewir i'r arllwysfeydd hyn fod yn llonydd pan fydd y tymheredd amgylchol ar ei gynhesaf ar y cyfan, mae risg sylweddol y bydd bacteria legionella yn ymledu yn y pibellau a bydd y rhai sy'n defnyddio'r arllwysfeydd hyn yn gyntaf bron yn sicr o fod yn agored i facteria legionella.

Os bydd un o'r bobl hyn yn digwydd bod yn berson â llai o imiwnedd, gall ddal clefyd y Llengfilwyr.

Mae ACoP L8 yn gwbl glir ac yn nodi ym mharagraff 165 y canlynol: **"Pan nad yw arllwysfeydd yn cael eu defnyddio'n rheolaidd, gall fflysio'r dyfeisiau hyn yn wythnosol am sawl munud leihau nifer y legionella sy'n cael eu rhyddhau o'r arllwysfeydd yn sylweddol.** Ar ôl dechrau, mae angen cynnal y weithdrefn hon a'i chofnodi oherwydd gall esgeulustod arwain at gynydd critigol mewn legionella yn yr arllwysfa." Felly, mae'n hollbwysig sicrhau, lle y gallwn, bod gofaluwr yn cyflawni'r gweithdrefnau hyn bob wythnos i fflysio pob arllwysfa nad yw'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd yn eu hadeiladau. Mae 'Dull Fflysio Arllwysfeydd a Ddefnyddir yn Anaml' ar y dudalen olaf. (Dylai pob gofaluwr fod yn gyfarwydd â'r broses hon).

Yn amlwg, gellir gweld bod 'fflysio'n wythnosol' a chofnodi'r weithdrefn honno yn hanfodol, a bydd yn rhaid dangos tystiolaeth o hynny cyn i unrhyw adeiladau gael eu defnyddio unwaith eto.

O ganlyniad, dylid sicrhau bod 'HSL Compliance' yn cael mynediad i'r safle er mwyn cynnal eu hymweliad gwasanaeth misol. Sicrhewch fod eu staff yn cael eu briffio'n llawn am unrhyw gyfyngiadau lleol neu gyfyngiadau ar safle a all fod yn berthnasol oherwydd Covid-19. Bydd gan HSL Compliance hefyd gopi o'r 'Datganiad Dull o Weithio ar gyfer Fflysio Arllwysfeydd a Ddefnyddir yn Anaml' a'r ffurflen ar gyfer cofnodi'r fflysio.

Os bydd angen i chi gysylltu â 'HSL Compliance' i drefnu amser a dyddiad addas i chi fod ar gael neu i drafod unrhyw agwedd ar y Drefn Fflysio, gwnewch hynny drwy gysylltu ag un o'r canlynol:

Owain Jones (Swyddog Monitro HSL Compliance) - **07525 125327**
Gareth Phillips (Swyddog Monitro HSL Compliance) - **07525 125328**

Beth am pan fydd angen i mi ddychwelyd i Weithredu'n Arferol?

Os caiff adeiladau neu systemau dŵr eu hynysu yn ystod yr argyfwng COVID-19 ac nad oedd modd gwybod am faint o amser y byddai hyn ar y dechrau ac nid yw'r mesurau rheoli yn cael eu cynnal a lle nad oedd staff ar gael o bosibl i fflysio er mwyn ysgogi defnydd, mae'n annhebygol y gellir ailagor adeiladau heb unrhyw fesurau ychwanegol.

Bydd angen ailystyried y gweithdrefnau ar gyfer dechrau systemau cyn y gellir ailagor adeiladau. Rhoddir ystyriaeth i lanhau a diheintio'r system ddŵr a/neu fflysio dan reolaeth er mwyn lliniaru'r risg o gyfnod hir pryd mae'r dŵr yn llonydd.